

**GRŴP CYFEIRIO STRATEGOL AR DDULL YSGOL GYFAN DROS
IECHYD MEDDWL A LLESIANT EMOSIYNOL
07 Hydref 2019 (09:00/10:30, Caerdydd 3, Cathays Park 2)**

Presennol

Jason Pollard (JP), Cadeirydd	Iechyd Meddwl a Llesiant Emosiynol mewn Ysgolion, AGC, Llywodraeth Cymru
Joanne Maddaford (JM)	CAMHS a Deddfwriaeth Iechyd Meddwl, Llywodraeth Cymru
Ella Sivan (ES)	Iechyd Meddwl a Llesiant Emosiynol mewn Ysgolion, AGC, Llywodraeth Cymru
Khalid Afzal (KA) (Ysgrifenyddiaeth)	Iechyd Meddwl a Llesiant Emosiynol mewn Ysgolion, AGC, Llywodraeth Cymru
Kolade Gamel (KG)	CAHMS a Nyrsio Iechyd y Cyhoedd
Tim Opie (TO)	Dysgu Gydol Oes, Hamdden a Gwybodaeth , CLILC
Deb Austin (DA)	Rhaglen Law yn Llaw dros Blant a Phobl Ifanc
Sarah Stone (SS)	Samariaid Cymru
Kate Henegan (KH)	Papyrus UK
Kirrin Davidson (KD)	Swyddfa'r Comisiynydd Plant
Lyn Neagle AM (LN)	Cadeirydd, Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Paul Glaze (PG)	Cyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuencid Gwirfoddol
Sharon Lovell (SL)	Y Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuencid Cenedlaethol
Jackie Mathias (JM)	Coleg Sir Benfro
Stephanie Hoffman (SH)	Pennaeth Gweithredu Cymdeithasol yn ProMo Cymru
Cath Norton (CN)	Pediatreg ac Iechyd Plant, Bwrdd Iechyd Addysgu Powys
Simon Jones (SJ)	Mind Cymru
Jo Hopkins (JH)	Iechyd Cyhoeddus Cymru

Ymddiheuriadau

Jacinta Tan	Anhwylдераu Bwyta, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bro Morgannwg
Helen Furneaux	Ymweliadau Iechyd a Gwasanaethau Nyrsio mewn Ysgolion, Bwrdd Iechyd Prifysgol Addysgu Powys
Rob Williams	Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon
Chris Alders	Awdurdod Lleol Caerdydd
Sue Mably	Iechyd Cyhoeddus Cymru
Nia Evans	Mind Cymru
Ann John	Hunanladdiad a Hunan-niwed, Prifysgol Abertawe
Lynzi Jarman	Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid Cymru
Rhian Morgan Ellis	Ysgol Gyfun Cwm Rhondda
Heather Potter	GIG Cymru
Lisa Dunsford	Bwrdd Clinigol Plant a Menywod, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
Ainsley Bladon	Arweinydd Strategaeth Iechyd Meddwl, Llywodraeth Cymru
Alistair Davey	Dirprwy Gyfarwyddwr, Gwasanaethau Cymdeithasol, Llywodraeth Cymru
Angela Lodwick	Pennaeth Gwasanaethau ar gyfer CAMHS Arbenigol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

Lisa Dunsford	Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
Dr Kirsty Fenton	Arweinydd Clinigol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Frances Beecher	Prif Weithredwr, Llamau
Heather Potter	
Zahrah Bashir	Diverse Cymru

1	<u>Croeso a Chyflwyniadau</u>	
1.1	Croesawodd JP yr aelodau i bedwerydd cyfarfod y Grŵp Cyfeirio Strategol ar Ddull Ysgol Gyfan dros Iechyd Meddwl a Llesiant, a gwnaed cyflwyniadau o amgylch y bwrdd. Darllenodd y rhestr o'r ymddiheuriadau a ddaeth i law. Hefyd, cyflwynodd JP Ella Sivan, sydd wedi cymryd lle Clare Van Boheman Hunter.	
2	Cofnodion a Chamau Gweithredu o gyfarfod 13 Mai 2019	
2:1	Trafodwyd a chadarnhawyd cofnodion y cyfarfod blaenorol; roedd yr holl gamau gweithredu wedi'u cyflawni heblaw am 1, 3, 6 ac 8, a chaiff y rhain eu cario drosodd i'w gweithredu yn y cyfarfod nesaf. Camau gweithredu 1, 3, 6 ac 8 i gael eu cario drosodd i'w gweithredu yng nghyfarfod nesaf y Grŵp Cyfeirio Strategol (ceir rhagor o fanylion yn Atodiad 1)	
3	Cyflwyno Ella Sivan	
3.1	Cyflwynodd JP ES yn eitem 1 ar yr agenda.	
4	Canllawiau Fframwaith Ysgolion drafft ar ddatblygu dull ysgol gyfan	
4.1	Agorodd JP y drafodaeth a nododd y byddai'r rhan fwyaf o'r cyfarfod yn canolbwyntio ar gasglu adborth ar gynnwys y canllawiau fframwaith drafft. Cyn i hyn gael ei drafod, ystyriodd y grŵp weithgarwch is-grwpiau i ddechrau. Cafodd y grŵp y wybodaeth ddiweddaraf am gyfarfod yr is-grŵp eiriolaeth, sef yr unig is-grŵp sydd wedi cwrdd yn rheolaidd er mwyn ystyried cynnig gweithredol eiriolaeth a'r ffordd y mae hyn yn gweithio'n fwy cyffredinol. Bydd Rhaglen Law yn Llaw dros Blant a Phobl Ifanc yn comisiynu adolygiad ar y cyd sy'n mapio'r ddarpariaeth eiriolaeth bresennol ym maes iechyd meddwl. Cyfarfu'r is-grŵp i ystyried mapio mewn perthynas â phobl ifanc sy'n manteisio ar CAMHS neu ddarpariaeth iechyd meddwl. Daeth i'r casgliad ei bod yn ymddangos bod prinder eiriolaeth heb unrhyw gysondeb o ran y ddarpariaeth ledled Cymru. Yn ddiweddar, ystyriodd y Prif Swyddog Meddygol eiriolaeth gyffredinol yn y GIG ac mae'n cyflawni darn o waith ar y mater hwn. Bydd hyn yn sicrhau cysondeb a pharhad y ddarpariaeth i bobl ifanc. Mae Dave Williams ac Iona Bevan wrthi'n cynnal adolygiad cymheiriaid gyda phob bwrdd iechyd er	

mwyn edrych ar lefelau'r eiriolaeth sydd ar gael i blant cyn cael cymorth CAMHS, islaw'r lefel i gleifion mewnol, a chaiff ei gymharu â gwaith y Prif Swyddog Meddygol. Ceir enghreifftiau da o hyn yng Ngwent gyda'r awdurdodau lleol yn cydweithio er mwyn comisiynu. Gellid cymhwyso hyn mewn mannau eraill, a chaiff y wybodaeth hon ei hystyried fel rhan o'r adolygiad cymheiriaid. Caiff data eu casglu, eu hadolygu a'u hystyried ym mis Ebrill 2020 er mwyn gweld yr hyn y mae'n ei olygu ac a allwn gyflwyno arfer da Gwent yn fwy ehangach.

Mewn perthynas â gwaith ehangach is-grwpiau'r Grŵp Rhanddeiliaid, cafwyd rhywfaint o drafodaeth ynghylch a ddylai'r is-grwpiau eraill barhau i gwrdd. Nododd JP mai'r bwriad gwreiddiol oedd y byddai'r is-grwpiau yn datblygu gweithgarwch ac yn adrodd yn ôl i'r Grŵp Rhanddeiliad llawn. Fodd bynnag, mae hyn wedi bod yn faich gweinyddol sylweddol i'r tîm Ysgrifenyddiaeth bach a'r ffocws dros yr haf oedd cyflawni ymrwymiad y Gweinidog i ddatblygu'r canllawiau Fframwaith ysgolion.

Y Fframwaith

Y mis Mehefin (2019) pan roddodd y Gweinidog Addysg dystiolaeth yn y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, nododd y byddai ymgynghoriad ffurfiol ar y fframwaith drafft yn cael ei gynnal tuag at ddiwedd y flwyddyn. Dosbarthwyd drafft cyntaf y fframwaith i randdeiliaid mewnol ac allanol er mwyn iddynt roi sylwadau ac adborth arno cyn 4ydd cyfarfod y Grŵp Cyfeirio Strategol. Mae'r ymatebion cychwynnol gan weithwyr proffesiynol amrywiol yn cynnwys penaethiaid ac athrawon wedi bod yn gadarnhaol.

Rhoddodd y cyfarfod gyfle i drafod a rhoi adborth ar y fframwaith. Yn ystod y cyfarfod, nododd yr aelodau y pwyntiau canlynol:

- Mae'r canllawiau'n cynnwys digon o wybodaeth ddefnyddiol. Efallai y gallwn newid y math o iaith a ddefnyddir i fod yn addas ar gyfer fersiwn sy'n hawdd ei defnyddio gan gynulleidfa iau.
- Dylid cael rhagor o bwyslais ar bwysigrwydd cydberthnasau yn gynharach yn y ddogfen ar y sgiliau a rennir gan y sawl sy'n gweithio gyda phobl ifanc. Mae'n bwysig sicrhau bod gan staff sgiliau hanfodol i ofalu am bobl ifanc fel y gallant sylwi ar arwyddion problemau iechyd meddwl a'u hadnabod. Felly, dylai staffio fod yn rhan ganolog o'r canllawiau, gan dynnu sylw staff at bwysigrwydd cydberthnasau a chysylltu â phobl ifanc. Ar y pwnc hwn, bydd y Tîm Ymlyniad o Went yn bresennol yng nghyfarfod y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Cyd-weinidogol ar 4 Tachwedd er mwyn trafod ei waith.
- Mae'r ddogfen yn darllen fel ei bod yn rhy feddygol, gydag ymyriadau a siartiau llif. Mae angen iddi gael arddull fwy hygyrch.
- Mae'n canolbwyntio ar ddiffygion i raddau helaeth. Awgrymwyd y byddai o fudd i'r fframwaith ddefnyddio iaith gadarnhaol a chanolbwyntio'n fwy ar rai o'r agweddau cadarnhaol.
- Awgrymwyd y dylai'r fframwaith gefnu ar y syniad o labelu person ifanc o dan benawdau penodol. Soniwyd hefyd y dylai'r cysyniad o atal problemau iechyd meddwl ymddangos yn gynharach yn y ddogfen gan ei fod yn fater cymhleth.

- Ymysg yr elfennau eraill yr awgrymwyd y gellid rhoi mwy o sylw iddynt roedd niwroamrywiaeth, gwerthoedd a hawliau, a Phrofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod.
- O safbwynt rheoli gwasanaethau'r cyngor a nyrsys mewn ysgolion, ystyrir bod y fframwaith yn ddechrau da o ran dangos sut i gefnogi staff – rhoi cymorth ac arweiniad i staff ysgolion (yn cynnwys nyrsys mewn ysgolion) reoli atgyfeiriadau yn hytrach nag anfon y plentyn at ei feddyg teulu a fyddai'n dangos dealltwriaeth fwy cyfyngedig o'i anghenion o gymharu â'r ysgol.
- Yr angen i greu amgylchedd ysgol o amgylch y fframwaith sy'n cydnabod y ffordd orau o helpu'r person ifanc, gan sicrhau bod gan staff rywun y gallant droi ato a'u helpu i ddeall y ffordd orau o helpu person ifanc.
- Sut y caiff llwyddiant ei fesur yn y dull ysgol gyfan? Mae angen i ni geisio peidio â gorrwytho athrawon â gwaith ychwanegol.
- Caiff cyfnodau pontio eu trafod ar dudalen 22, a gallai hyn gynnwys y cyfnod pontio i'r coleg yn ogystal â rhwng yr ysgol gynradd a'r ysgol uwchradd.
- Nodwyd y cyfeirir ar dudalen 25 at strategaeth gwaith ieuenctid i Gymru. Gallai hyn gael ei gynnwys yn y fframwaith strategol a deddfwriaethol ar dudalen 3 yn ogystal â strategaethau eraill a nodir fel pwnc pwysig y dylid eu nodi yn gynharach.

Fframwaith deddfwriaethol strategol

Cafwyd adborth da gan randdeiliaid ar ran ddeddfwriaethol strategol y fframwaith gan nad oedd sawl un yn ymwybodol o'r cynnwys. Fodd bynnag, mae'n bwysig ystyried a ydym wedi colli unrhyw beth arall. Ymysg yr awgrymiadau a gafwyd o amgylch y bwrdd roedd:

- Gellid cynnwys y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant gan ystyried eiriolaeth a deddfwriaeth.
- Atgyfnerthu gair Cadernid Meddwl.
- Cynnwys adran darllen pellach yn y cefn a allai fod yn ddefnyddiol i'r athro.

Diagram llwybr atgyfeirio

Cafwyd trafodaeth hefyd ar y llwybr atgyfeirio, yn cynnwys:

- Gall diagramau fod yn ffordd ddefnyddiol o ddelweddu'r daith y bydd person ifanc yn ei dilyn, fodd bynnag, codwyd pryderon y gallai'r llwybr atgyfeirio fod yn wrthreddfol, sy'n nodweddiadol o'r hyn y mae pobl ifanc yn ei ddweud am gael eu symud o amgylch y system o un lle i'r llall.
- Byddai o fudd i'r llwybr gael ei roi yn ei gyd-destun, gan ddangos y cymorth ehangach i feithrin gwydnwch yn hytrach na rhoi ffocws clir ar y rheini sy'n dangos anawsterau.

	• Cyn aros am asesiad, ystyriwyd bod angen dull i weithwyr proffesiynol ddeall a gofyn i berson ifanc pa ganlyniad y mae am ei gael a sut y gallech ymateb i'r canlyniad hwnnw. • Codwyd sut y gallwch alluogi'r person ifanc hwnnw i gael help gan y meddyg teulu. O brofiad, nododd yr aelodau y gall hwn fod yn gam brawychus i'r plentyn, ac yn aml, nid yw meddygon teulu'n adnabod pobl ifanc mor dda ag athro. • Gellid llunio ail ddiagram sy'n hygyrch i bobl ifanc, sy'n dangos eu taith a gyda phwy y gallent ryngweithio ar bob cam. Yn ehangach, nodwyd bod rhai athrawon sy'n gweithio gyda phobl ifanc yn ei chael hi'n anodd sylwi ar emosiynau penodol, ac y gallant gamddehongli ymddygiad person ifanc. Mae'n bwysig i athrawon gael hyfforddiant a deall eu llesiant eu hunain, sydd yn ei dro yn eu helpu i ddangos cydymdeimlad tuag at eraill gan adnabod arwyddion a deall pa gamau i'w cymryd. Mae Diverse Cymru wedi gwneud gwaith mewn cymunedau i drafod yr heriau a'r sgysiau anodd sy'n wynebu pobl ifanc na allant drafod y pynciau hyn gartref. Mae sawl ysgol wedi gwneud gwelliannau cadarnhaol mewn perthynas â chynnwys rhieni. Gofynnwyd beth y byddai ysgolion am ei gael o'r canllawiau fframwaith? Dylai fod yn ddogfen fyw sy'n rhoi arweiniad i staff ysgolion a phawb sy'n rhyngweithio â phlant a phobl ifanc. Yn ogystal, er mwyn i'r dull ysgol gyfan fod yn llwyddiannus, mae angen i ysgolion gael atebion ymarferol. Nodwyd y bwriedir i'r fframwaith fod yn ddogfen drosfwaol, ac oddi tano ceir amrywiaeth o adnoddau eraill sydd ar gael i ysgolion. Mae gan Awdurdodau Lleol a Chonsortia hefyd rôl i gefnogi ysgolion yn y broses hon. Yn gyffredinol, daeth y Grŵp i'r consensws y dylai'r fframwaith fod yn llai meddygol, yn fwy ystyriol o ddefnyddio iaith gadarnhaol ac yn fwy addas ar gyfer pobl ifanc, gan ganolbwyntio mwy ar gydberthnasau. Rhaid iddo fod yn berthnasol i bob plentyn a pherson ifanc, nid dim ond y rhai hynny â phroblemau llesiant meddwl emosiynol, niwroddatblygol ac ymddygiadol. Felly, dylai gefnogi pobl ifanc ar bob cam o'u bywyd addysgol i'r adeg y byddant yn oedolion, a meithrin gwydnwch ac empathi pan na fydd ganddynt ieuchyd meddwl gwael. Gan fod y cyfarfod wedi rhedeg dros ei amser, ni chafwyd amser am drafodaeth bellach, er y gofynnwyd i'r aelodau ddarparu sylwadau ysgrifenedig i'r ysgrifenyddiaeth erbyn canol mis Hydref.	
5	Y Camau Nesaf	
5.1	Ni chyrhaeddwyd yr eitem hon ar yr agenda.	
6	Unrhyw faterion eraill a dyddiad y cyfarfod nesaf	
6.1	Dyddiad y cyfarfod nesaf: 13 Ionawr 2020 Lleoliad: Caerdydd 3, Parc Cathays 2	

Atodiad 1: Camau gweithredu o gyfarfod y Grŵp Cyfeirio Strategol ar 13 Mai 2019

Cam Gweithredu	Perchennog	Statws
Cam Gweithredu 1 (wedi'i gario drosodd o'r cyfarfod cyntaf: DA i drafod cynrychiolaeth seiciatrig i oedolion ar y grŵp hwn â Carol Shillabeer, Prif Weithredwr Bwrdd Iechyd Addysgu Powys a rheolwr Rhaglen Law yn Llaw dros Blant a Phobl Ifanc.	Deb Austin	Yn dilyn trafodaethau, argymhellir y dylai'r Grŵp Rhanddeiliaid ar y Dull Ysgol Gyfan ystyried arweinydd Gwasanaethau Cymorth Iechyd Meddwl Gofal Sylfaenol Lleol yn hytrach na seicolegydd oedolion. Mae Dave Williams wedi awgrymu y dylid cysylltu ag arweinwyr Hywel Dda a/neu Gaerdydd i gael enwebiad.
Cam Gweithredu 3: CvBH i ganfod a fyddai aelod o'r Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid leuenctid yn fodlon mynychu cyfarfod nesaf y grŵp hwn er mwyn sicrhau bod ei safbwyntiau'n cael eu clywed.	Ysgrifenyddiaeth	I'w gyflawni ar gyfer cyfarfod nesaf y Grŵp.
Cam Gweithredu 6: Yr Ysgrifenyddiaeth, DA a JM i lunio diagram yn dangos y ffordd y mae'r llifau gwaith a'r grwpiau gwahanol yn cyd-fynd a'r rhyngddibyniaethau.	JP, DA, JM	Caiff diagram i ymgorffori'r newidiadau arfaethedig i Law yn Llaw dros Blant a Phobl Ifanc ac unrhyw ofynion adrodd eu drafftio ar ôl cytuno ar y rhain.
Cam Gweithredu 8: Yr Ysgrifenyddiaeth ac SL i drafod y broses o drefnu cyfarfodydd yr is-grŵp	Ysgrifenyddiaeth	Cyfarfu'r Is-grŵp Eiriolaeth ddiwethaf ar 6 Awst. Caiff gweithgarwch yn y dyfodol ei drafod ag SL.

eiriolaeth yn y dyfodol.		
Cam Gweithredu 9: Gofynnodd LN am i ymatebion adborth ysgrifenedig unigol y Grŵp i'r Ysgrifenyddiaeth gael eu copïo i bob aelod o'r Grŵp.	Ysgrifenyddiaeth	I'w ddosbarthu erbyn diwedd mis Hydref.